Cofnodion Pwyllgor Cynllunio a Materion Cyffredinol Cyngor Tref Llandeilo, a gynhaliwyd ar nos Fercher yr 11eg o Ionawr 2017 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 7.00yh.

Presennol: Y Maer y Cyng. Colin Jenkins, y Cyng. Julia Jones (Cadeirydd), y Cyng. Eifion Davies, y Cyng. Dawn Wallace, y Cyng. Geraint Price, y Cyng. Carol Watts, y Cyng. Rob Jones.
Roger Phillips (Clerc Tref)
Desmond Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Richard Wallace, y Cyng. Rebecca Butcher, y Cyng. Gordon Kilby, y Cyng. Owen James.

Cof 243 / Ion / 17 Datganiadau o Fuddiant. Dim.

Cof 244 / Ion / 17 Ceisiadau Cynllunio i'w Penderfynu

E/34739 Newid amod Rhif 2 o E/05476 yn Waterloo Villas, Stryd y Bont.
E/34700 Newid amod Rhif 2 o E/05477 yn Waterloo Villas, Stryd y Bont.
Sylw: Dim gwrthwynebiad.

E/34895 1x logo wedi'i oleuo'n fewnol. Arwydd A; 2x llythyren acrylig wedi'u mowntio ar wal heb olau. Arwydd B, P; 10x panel alwminiwm wedi'u mowntio ar wal heb olau. Arwyddion - C,D1,D2,D3,E,F, G, H, I, J,; 6x panel alwminiwm wedi'u mowntio ar bostyn heb olau.
Arwyddion K1,K2,K3,L,Q,R; 4x arwydd finyl M1,M2,N1,N2; 1 x totem wedi'i oleuo'n fewnol. Arwydd O, ar archfarchnad y Co-operative, Stryd Rhosmaen.
Sylw: Dim arsylwadau a chafodd ei gario gan 3 pleidlais o blaid ac 1 yn erbyn, fe wnaeth 2 ymatal.

Cof 245 / Ion / 17 Penderfyniadau ynghylch Ceisiadau Cynllunio

E/34682 Estyniad i'r tŷ presennol a newid defnydd o dir amaethyddol i libart preswyl estynedig, hefyd gwelliant i fynedfa lle parcio'r tŷ, fel y bo lle i dri char yn 17, Heol Clarence.
RHODDWYD.

E/34448 Llety bloc swyddfa newydd. Ailgyflwyno cais E/32396 a dynnwyd yn ôl, yng Ngwasanaethau Adeiladu Llandeilo, Heol yr Orsaf.
RHODDWYD.

E/34496 Estyniad blaen ac ochr arfaethedig yn 40, Lôn Rhys.
RHODDWYD.

Cof 246 / Ion / 17 Materion Eraill yn ymwneud â Chynllunio

1. Achos Gorfodaeth Cynllunio CSG E/ENF07839.
   Ynglŷn â: Gwaith heb awdurdod i adeilad rhestredig Gradd II oddi fewn i ardal gadwraeth yn Nhŷ Stepney, 23, Stryd yr Eglwys. **Achos wedi cau gan na dorrwyd unrhyw amodau cynllunio.**

2. Achos Gorfodaeth Cynllunio CSG E/ENF/07838
   Ynglŷn â: Gwaith heb awdurdod i annedd oddi fewn i ardal gadwraeth yn Haven, 7, Teras yr Abaty. **Achos wedi cau gan na dorrwyd unrhyw amodau cynllunio.**
3. Adran Cynllunio CSG.
   Fe fydd ymchwiliad yn cychwyn mewn perthynas â newid defnydd anawdurdodedig honedig i iard sgrap / storfa gerbydau / gwerthu ceir yn Nepo Bysiau'r Brodyr Thomas, Stryd Rhosmaen.

Cof 247 / Ion / 17 Gohebiaeth

1. Amanda Bebb, Gwasanaethau Etholiadol CSG, gyda manylion am yr etholiadau Tref a Chymuned sydd ar ddod. Nodwyd.
2. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol - cyfarfod yn Llambed ar yr 2il o Chwefror 2017. Nodwyd.
3. Sian Williams, Marchnata CSG, mewn perthynas â Chanllaw Trefnwyr Digwyddiadau Sir Gaerfyrddin. Cytunodd y Cyngor i gofrestru gyda CSG.
4. Alex Harries, ynglŷn â Dewis Cymru. Cytunwyd nad oedd hyn yn berthnasol i'r Cyngor.

Cof 248 / Ion / 17 Materion yn ymwneud â Thrafnidiaeth a Phriffyrdd

Roedd y Cyng. Edward Thomas wedi derbyn gohebiaeth yn datgan bod £50 miliwn wedi cael ei glustnodi i ddatblygu Ffordd Osgoi Llandeilo. Mae'n rhaid gwario'r arian rhwng 2017-2021. Nodwyd nes bod mwy o wybodaeth ar gael.

Cof 249 / Ion / 17 Adroddiad y Swyddog Technegol

Roedd y Swyddog Technegol wedi dosbarthu ei adroddiad cyn y cyfarfod. Dywedodd y Swyddog Technegol bod yr holl oleuadau Nadolig wedi cael eu tynnu i lawr erbyn hyn. Cytunwyd i arddangos baneri Cymru yn y Dref i ddathlu Dydd Gŵyl Dewi. Cynigodd y Cyng. Colin Jenkins bod y Swyddog Technegol yn rhoi gwybod i'r Cyngor faint o faneri sydd eu hangen, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Eifion Davies.

Cof 250 / Ion / 17 Doedd dim eitemau arall o fusnes roedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn penderfynu eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag Adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 7.45yh.